
# Adroddiad Perfformiad – DIWEDD BLWYDDYN 2017-18

Cyngor Abertawe Swansea Council


Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol

Perfformiad corfforaethol o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol

**Crynodeb Cyffredinol o'r Cyngor**





**Crynodeb Cyffredinol o'r Cyngor**




# Adroddiad Perfformiad – DIWEDD BLWYDDYN 2017-18

## Perfformiad Blaenoriaeth o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol


### Diogelu





### Disgybl





### Trawsnewid




### Yr Economi





### Tlodi





## Perfformiad Blaenoriaeth o'i gymharu â'r Flwyddyn Flaenorol


### Diogelu





### Disgybl





### Trawsnewid




### Yr Economi




### Tlodi



**Adroddiad Perfformiad - Blynyddol 2017/18**

| GWYRDD Cyflawnodd y targed | AMBR O fewn 5% i'r targed | COCH Collodd y targed |
|---|---|---|

Cyngor Abertawe Swansea Council

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur E – Enwadur 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Blaenoriaeth 1: Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth**

Mae'r cyngor wedi gosod targedau heriol, a hynny'n briodol, mewn perthynas â pherfformiad sy'n gysylltiedig ag arfer ei gyfrifoldebau diogelu corfforaethol. Er gwaethaf y ffaith fod nifer o'r targedau heriol hyn wedi'u colli o drwch blewyn, mae'r cyngor yn parhau i arfer a chyflawni ei gyfrifoldebau diogelu'n gadarn.
Mae arwyddion hynod galonogol i ddangos bod ein model o ofal cymdeithasol i oedolion mwy ataliol ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn dechrau cael effaith, gyda pherfformiad gwell o ran asesiadau i ofalwyr, adolygiadau blynyddol, cydlynu ardal leol, ailalluogi effeithiol a'r gyfradd gyffredinol o oedolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth ffurfiol. Erys pwysau sy'n gysylltiedig â nifer o drefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn uchel, ond cafwyd gwelliant sylweddol o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.
Mae'r Gwasanaethau Plant yn parhau i brofi pwysau sylweddol sy'n gysylltiedig â lefelau galw uwch na'r disgwyl eleni. Mae hyn wedi effeithio ar berfformiad ar draws amrediad o ddangosyddion. Er hynny, gwneir cynnydd wrth leihau nifer cyffredinol y plant sy'n destun gofal a chefnogaeth tua diwedd y flwyddyn, er bod nifer y plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant yn parhau'n uchel.
Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r cynnydd uchel yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n adlewyrchu tuedd genedlaethol eleni. Erys cyfradd gyffredinol PDG yn sylweddol is nag awdurdodau lleol cymaradwy Cymru, ond rhaid i ni ailddyblu'n hymdrechion gyda gwasanaethau cymorth cynnar a'r Gwasanaethau Plant statudol i sicrhau y cefnogir teuluoedd yn effeithiol gyda chymorth i deuluoedd mewn ffordd amserol a chymesurol.
Mae'r gwaith i gyflwyno hyfforddiant diogelu i'r holl staff ac Aelodau Etholedig yn parhau ac er gwaethaf rhai bylchau, rhaid canmol i ba raddau y mae holl weithlu'r cyngor yn deall hyn ac yn amlwg yn cyfrannu at y syniad bod 'diogelu'n fusnes i bawb'.

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R/E 2017/18 | R/E 2016/17 | Sylwadau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS8 ↑**<br>Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion i'r Gwasanaethau i Oedolion lle gwnaed penderfyniadau o fewn 24 awr | AMBR<br>**63.70%** | 65% | 65.27% | COCH ↘ | Nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn y chwarter a gwblhawyd o fewn 24 awr<br>874<br>Cyfanswm nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn<br>1,372 | <br>827<br><br>1,267 | Cynyddodd nifer yr ymholiadau yn 2017/18 o'i gymharu â 2016/17, gydag ymholiadau i dimau dros 26% yn uwch na'r cyfartaledd ym mis Ionawr 2018. Mae hyn wedi golygu ei bod hi wedi bod yn fwy anodd gwneud penderfyniadau ynghylch trothwyon o fewn 24 awr. Byddwn yn parhau i fonitro hyn a bydd ein newidiadau arfaethedig i'r broses ddiogelu hefyd yn lleihau nifer yr atgyfeiriadau y mae angen iddynt fynd drwy'r broses ffurfiol. | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad<br>2017/18 | Targed<br>2017/18 | Perfformiad<br>2016/17 | O'i gymharu â<br>2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | <br><br>2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mesur 18 ↑**<br>Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod | GWYRDD<br>91.91% | 90% | 89.66% | GWYRDD<br>↗ | Nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn y flwyddyn a gwblhawyd o fewn 7 niwrnod gwaith<br>**1,261**<br>Cyfanswm nifer yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.<br>**1,372** | <br>**1,136**<br><br>**1,267** | | |
| **AS9 ↑**<br>Canran yr asesiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd mewn 21 diwrnod neu lai | AMBR<br>59.6% | 60% | 63.1% | COCH<br>↘ | Canran yr asesiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd mewn 21 diwrnod neu lai yn dilyn cais.<br>**1,051**<br>Nifer yr asesiadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a gwblhawyd yn ystod y cyfnod.<br>**1,762** | <br>**963**<br><br>**1,527** | Roedd y galw cyffredinol ar reoli gofal yn uwch yn ystod C4 na C3, gydag ymholiadau i dimau dros 26% yn uwch na'r cyfartaledd ym mis Ionawr 2018. Mae hyn wedi golygu ei bod wedi bod yn anos cwblhau asesiadau o fewn yr amserlenni. Byddwn yn parhau i fonitro hyn ac mae ein tîm Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid bellach ar waith a dylai hyn gael effaith ar berfformiad. | |
| **AS10 ↑**<br>Canran yr adolygiadau blynyddol o gynlluniau gofal a chefnogaeth a gwblhawyd yn y Gwasanaethau i Oedolion | GWYRDD<br>68.43% | 65% | 64.8% | GWYRDD<br>↗ | Nifer yr adolygiadau cynlluniau gofal a chefnogaeth a gynhaliwyd yn y flwyddyn ddiwethaf gan y Gwasanaethau i Oedolion<br>**4,040**<br>Nifer y bobl y dylai'r Gwasanaethau i Oedolion fod wedi adolygu eu cynlluniau gofal a chefnogaeth<br>**5,904** | <br>**4,035**<br><br>**6,227** | | |
| **AS11 ↓**<br>Cyfradd yr oedolion 65+oed sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles fesul 1,000 o'r boblogaeth | GWYRDD<br>111.25 | 108><113 | 112.05 | GWYRDD<br>↗ | Nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn a gefnogwyd yn y gymuned neu a oedd mewn gofal nyrsio preswyl yn ystod y flwyddyn<br>**5,253**<br>Cyfanswm y boblogaeth 65+ oed<br>**47,220** | <br>**5,291**<br><br>**47,220** | | |
| **AS12 ↓**<br>Cyfradd yr oedolion 18-64 oed sy'n derbyn gofal a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion lles fesul 1,000 o'r boblogaeth | COCH<br>12.99 | 9><11 | 14.60 | GWYRDD<br>↗ | Nifer y bobl 18-64 oed a gefnogwyd yn y gymuned neu a oedd mewn gofal nyrsio preswyl yn ystod y flwyddyn.<br>**1,948**<br>Cyfanswm y boblogaeth 18-64 oed<br>**149,958** | <br>**2,190**<br><br>**149,958** | Nid oedd perfformiad wedi cyrraedd y targed oherwydd bod gwasanaethau dydd yn cael eu cofnodi'n well ar draws y Gwasanaethau i Oedolion, gan ddangos bod mwy o bobl yn derbyn gwasanaeth nag yr oeddem wedi'i ddeall yn flaenorol. O gofio'r wybodaeth newydd hon, nid oedd y targed gwreiddiol yn realistig a bydd angen ei addasu yn 2018/19. | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad<br>2017/18 | Targed<br>2017/18 | Perfformiad<br>2016/17 | O'i gymharu â<br>2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | 2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS13 ↑**<br>Nifer y gofalwyr (18+ oed) a dderbyniodd asesiad gofalwr yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn | GWYRDD<br>655 | 600 | 539 | GWYRDD<br>↗ | Nifer y bobl 18+ oed a dderbyniodd asesiad gofalwr.<br>**655**<br>E<br>**1** | **539**<br>**1** | | |
| **AS14 ↑**<br>Canran y bobl sydd wedi cwblhau eu cyfnod ailalluogi a oedd yn derbyn llai o ofal neu ddim gofal 6 mis ar ôl diwedd y cyfnod ailalluogi | GWYRDD<br>82.57% | 75% | 71.50% | GWYRDD<br>↗ | Nifer y bobl sydd wedi cwblhau cyfnod ailalluogi a oedd yn derbyn llai o ofal neu ddim gofal 6 mis ar ôl diwedd y cyfnod ailalluogi.<br>**526**<br>Nifer y bobl sydd wedi cwblhau cyfnod ailalluogi.<br>**637** | **434**<br>**607** | | |
| **Mesur 19 ↓**<br>Cyfradd gohirio trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | COCH<br>5.86 | 4 | 5.81 | COCH<br>↘ | Cyfanswm preswylwyr yr awdurdod lleol yr oedd oedi wrth drosglwyddo eu gofal yn ystod y flwyddyn am resymau gofal cymdeithasol<br>**127**<br>Cyfanswm y boblogaeth 75+ oed<br>**21,672** | **126**<br>**21,672** | Mae perfformiad wedi gwella yn Chwarter 4, gyda ffigyrau Oedi wrth Drosglwyddo Gofal yn lleihau fis ar ôl mis tan fis Mawrth. Fodd bynnag, mae nifer yr oediadau wrth drosglwyddo gofal a gyrhaeddodd uchafbwynt ym mis Awst y llynedd wedi'i gwneud hi'n fwy anodd cyrraedd y targed amcanol ar gyfer dechrau'r flwyddyn. | |
| **AS15 ↑**<br>Canran yr holl ddangosyddion statudol ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion sydd wedi cynnal neu wella'u perfformiad ers y flwyddyn flaenorol | COCH<br>78% | 85% | - | **DP newydd** | Nifer y dangosyddion perfformiad statudol y mae eu perfformiad yn gwella.<br>**7**<br>Nifer y dangosyddion perfformiad statudol<br>**9** | **DD/B**<br>**DD/B** | Llwyddom i gyrraedd y targed ar gyfer 7 o'r 9 dangosydd statudol (gan gynnwys MAC). O ran y rhai a gollwyd, roedd hyn oherwydd y lefel uchel o oedi wrth drosglwyddo gofal ym mis Awst y llynedd yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl yr oedd ganddynt becyn gofal yn flaenorol cyn dod yn rhan o'n gwasanaeth ailalluogi. | |
| **SUSC5 ↑**<br>Nifer y ceisiadau newydd ar gyfer Cydlynu Ardaloedd Lleol | GWYRDD<br>259 | 240 | 229 | GWYRDD<br>↗ | Nifer y cyflwyniadau ar gyfer unigolion a gofnodwyd yng nghronfa ddata Cydlynu Ardaloedd Lleol.<br>**259**<br>E<br>**1** | **229**<br>**1** | | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur / E – Enwadur 2017/18 | R – Rhifiadur / E – Enwadur 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CIP3 ↑**<br><br>Nifer y bobl sy'n dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol 12 mis ar ôl cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu ac sy'n nodi bod eu hiechyd wedi gwella | **COCH**<br><br>**158** | 176 | 176 | **COCH**<br><br>**↘** | Nifer y rhai a atgyfeiriwyd sydd wedi cwblhau'r cynllun 16 wythnos ac sydd wedi cyrraedd 12 mis yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n nodi eu bod yn actif o hyd.<br>**158**<br>E<br>**1** | **176**<br><br>**1** | Roedd prinder staff o bron 50% ar ddechrau'r flwyddyn a'r cyfnodau recriwtio a hyfforddiant/gwella sgiliau a oedd yn angenrheidiol yn dilyn hyn yn golygu y cafwyd oedi o ran cyflwyno'r tîm llawn tan fis Medi 2017. Gweithiodd y tîm yn galed i oresgyn y materion hyn a chyflawni'r canlyniadau diwedd blwyddyn yr adroddwyd amdanynt. |
| **CFS14 ↑**<br><br>Canran y penderfyniadau a wnaed o ran atgyfeirio am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gymerir o fewn 24 awr o dderbyn yr atgyfeiriad | **AMBR**<br><br>**99.94%** | 100% | 100% | **COCH**<br><br>**↘** | Nifer y penderfyniadau ynghylch atgyfeirio am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd a gymerir o fewn 24 awr o dderbyn yr atgyfeiriad<br>**1,755**<br>Nifer yr atgyfeiriadau am ofal a chefnogaeth a dderbyniwyd gan Wasanaethau Plant a Theuluoedd yn ystod y cyfnod.<br>**1,756** | **1,776**<br><br>**1,776** | Ni wnaed un penderfyniad ar amser. Rydym yn deall y rhesymau sydd wrth wraidd hyn ac wedi rhoi mesurau ar waith i'w atal rhag digwydd eto. |
| **CFS16 ↑**<br><br>Canran y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant cychwynnol. | **COCH**<br><br>**88.89%** | 95% | 90.13% | **COCH**<br><br>**↘** | Nifer y cyfarfodydd craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith o'r gynhadledd amddiffyn plant<br>**392**<br>Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod pan cofrestru oedd y canlyniad.<br>**441** | **347**<br><br>**385** | Er bod perfformiad wedi gwella yn Chwarter 4, roedd cynnydd ym maint y gwaith yn 2017/18 wedi effeithio ar berfformiad a gwelliant diwedd blwyddyn o'i gymharu â'r llynedd. |
| **CFS18 ↓**<br><br>Nifer y plant sy'n derbyn gofal (PDG) fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe. | **COCH**<br><br>**111.00** | 90><102 | 102.28 | **COCH**<br><br>**↘** | Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd cyfnod<br>**522**<br>Cyfanswm y boblogaeth 0-17 oed<br>**47,026** | **481**<br><br>**47,026** | Mae niferoedd y plant sy'n derbyn gofal wedi codi ledled Cymru yn 2017/18. Gwnaed gwaith sylweddol i ddeall pam y mae mwy o blant wedi dod i'r system ofal eleni. Y themâu sylfaenol a gafwyd yn Abertawe oedd nifer o grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd yn gorfod derbyn gofal yn Ch4 a chynnydd sydyn yn nifer y babanod sy'n cael eu derbyn pan gânt eu geni. Y ffocws wrth symud ymlaen fydd ar blant sydd ar ymyl gofal ac aildrefnu proses y Panel ar gyfer derbyn a chynllunio i sicrhau sefydlogrwydd ac er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd. |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur E – Enwadur 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CFS19 ↓**<br>Nifer y plant ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol (CAP) fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe. | **AMBR**<br>**54.01** | 45><52 | 53.59 | **COCH**<br>↘ | Nifer y plant ar y CAP ar ddiwedd y cyfnod<br>**254**<br>Cyfanswm y boblogaeth 0-17 oed<br>**47,026** | **252**<br>**47,026** | Er y rhagorwyd o drwch blewyn ar y targed amrediad ac yr effeithiwyd ar berfformiad o'i gymharu â'r llynedd, cafwyd 2 yn fwy o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o'i gymharu â'r llynedd. | |
| **CFS20 ↓**<br>Nifer y plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt (CINCS) fesul 10,000 o'r boblogaeth 0-17 oed yn Abertawe. | **GWYRDD**<br>**192.02** | 190><205 | 211.59 | **GWYRDD**<br>↗ | Nifer y plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt ar ddiwedd cyfnod<br>**903**<br>Cyfanswm y boblogaeth 0-17 oed<br>**47,026** | **995**<br>**47,026** | Mae nifer y plant y mae angen gofal a chefnogaeth arnynt yn parhau i leihau tuag at y targed. | |
| **CFS21 ↑**<br>Canran yr holl ddangosyddion statudol ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sydd wedi cynnal neu wella'u perfformiad ers y flwyddyn flaenorol. | **COCH**<br>**40.00%** | 80% | - | **DP newydd** | Faint o fesurau perfformiad statudol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sydd wedi cynnal performiad neu wella perfformiad yn ystod y cyfnod cyfrifo.<br>**2**<br>Nifer y dangosyddion yn y gyfres gyfrifo.<br>**5** | **N/A**<br>**DD/B** | Bydd y canlyniad hwn yn newid wrth i ni ychwanegu mwy o ddangosyddion. Yn anffodus ar adeg cwblhau, nid oedd yr holl ddangosyddion ar gael i'w cynnwys. Byddwn yn rhoi'r diweddaraf cyn gynted ag y bydd y rhain ar gael. | |
| **Mesur 24 ↑**<br>Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol | **COCH**<br>**72.38%** | 90% | 82.39% | **COCH**<br>↘ | Nifer yr asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfrifo a gwblhawyd yn ystod 42 diwrnod gwaith o'r adeg atgyfeirio.<br>**941**<br>Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y cyfnod cyfrifo.<br>**1,300** | **1,123**<br>**1,363** | Mae newidiadau yn sgîl Deddf GCLl (Cymru) wedi ychwanegu at y pwysau a wynebir gan y gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ymgymryd â nifer o ddatblygiadau gwasanaeth dros y 12 mis diwethaf gan gynnwys ailddylunio Cynllunio Gofal â Chymorth. Bydd datblygu hwb perfformiad fel rhan o'r ailddylunio'n gwella perfformiad yn y maes hwn yn y dyfodol. | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad<br>2017/18 | Targed<br>2017/18 | Perfformiad<br>2016/17 | O'i gymharu â<br>2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | <br><br>2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mesur 28 ↔**<br>Hyd amser y plant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd | **Dim COG**<br>208.5 | 100><300 | 231 | **LLEIHAU** | Swm hyd yr amser (mewn diwrnodau) y mae pob plentyn wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant os oeddent wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y cyfnod.<br>**92,150**<br>Nifer y plant a dynnwyd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y cyfnod<br>**442** | <br>**82,138**<br><br>**356** | |
| **SAFE8b ↑**<br>Canran yr aelodau etholedig sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu | **COCH**<br>**81.9%** | 100% | 77.8% | **GWYRDD**<br>↗ | Nifer yr Aelodau Etholedig sydd wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu pobl ddiamddiffyn.<br>**59**<br>Nifer yr Aelodau Etholedig.<br>**72** | <br>**56**<br><br>**72** | Ers yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, cyflwynwyd rhaglen o hyfforddiant, ynghyd ag e-ddysgu, i Aelodau Etholedig. Bydd y rhaglen yn parhau i 2018/19 i sicrhau bod yr holl gynghorwyr wedi'u hyfforddi. |
| **SAFE27 ↑**<br>Nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu priodol o fewn y flwyddyn ariannol | **COCH**<br>**737** | 1000 | - | **DP newydd** | Nifer yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn hyfforddiant diogelu pobl ddiamddiffyn<br>**737**<br>E<br>**1** | <br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | Gyda'r prosiect, hyfforddwyd 737 o staff yn erbyn targed o 1,000 ar gyfer 2017/18. Mae'r prosiect yn parhau i ysgogi cyfranogwyr drwy nodi hyrwyddwyr a hyfforddwyr i gyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb a chefnogaeth yn 2018/19. |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur E – Enwadur 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Blaenoriaeth 2: Addysg a Sgiliau

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth**

Mae canlyniadau'r dangosyddion perfformiad yn dangos darlun sy'n gwella'n gyffredinol, gyda gwelliannau ar ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y canlyniadau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Er gwaethaf cynnydd mewn canrannau ers y flwyddyn flaenorol, collwyd rhai targedau ac mae gwaith yn parhau i gefnogi ysgolion gydag asesiadau athrawon cywir a sicrhau bod disgyblion o fewn y lefel perfformiad sy'n ofynnol. Mae anghyfartalwch rhwng targedau ac allbynnau yn nangosyddion Cyfnod Allweddol 4. Roedd yn anodd rhagfynegi targedau oherwydd y newidiadau sylweddol i gymwysterau a cholli sgiliau allweddol sy'n bwysig ar gyfer y dangosyddion hyn. Fodd bynnag, roedd perfformiad Abertawe'n uwch na'r lefel meincnodi ddisgwyliedig ac ni ddylid cymharu canlyniadau â blynyddoedd blaenorol oherwydd dirywiodd perfformiad ledled Cymru.
Mae'r gyfradd wella wedi arafu ar draws y profion cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir y dylid defnyddio'r profion hyn mewn modd diagnostig yn hytrach na fel mesur atebolrwydd, ac mae ysgolion bellach yn derbyn hyn.
Mae Partneriaeth Sgiliau Abertawe'n cael ei lansio yn ystod tymor yr haf 2018 a bydd yn cynnwys aelodaeth o bob sector addysg yn yr awdurdod. Nod y bartneriaeth hon yw gweithio tuag at nifer o gamau i gyflawni'r amcanion lles yn y cynllun corfforaethol gan gynnwys sicrhau bod y sgiliau a'r cymwysterau y mae plant a phobl ifanc yn eu hennill yn bodloni dyheadau tymor hir y ddinas, gan gynnwys y rhai a fydd yn deillio o Fargen Ddinesig Bae Abertawe.
Caiff presenoldeb ei fonitro'n agos o hyd oherwydd ei bod hi'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd i ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt. Cyflawnwyd y canlyniadau uchaf erioed ar gyfer Abertawe yn ystod blwyddyn academaidd 2016-2017, fodd bynnag, ni wireddwyd y targedau heriol. Bydd angen her bellach i sicrhau lefelau presenoldeb uchel ar draws ysgolion.
Ni newidiodd lefel y plant a oedd yn dod yn NEET o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r prosiect Cynnydd yn parhau i gefnogi plant sydd mewn perygl o fod yn NEET, gan ddarparu ymyriadau pwrpasol i ddisgyblion unigol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 i'w hatal rhag colli diddordeb mewn dysgu.

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R/E 2017/18 | R/E 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BBMA4 ↑**<br><br>Prentisiaethau – nifer y prentisiaethau neu hyfforddeion a ddechreuodd yn y cyngor yn 2017/18 | GWYRDD<br><br>34 | 25 | - | DP newydd | Nifer y bobl a ddechreuodd weithio gyda DASA fel prentisiaethau neu hyfforddeion yn ystod y cyfnod.<br>**34**<br>E<br>**1** | <br><br>**DD/B**<br><br>**DD/B** | |
| **EDU016a ↑**<br><br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | AMBR<br><br>**95.05%** | 95.2% | 94.88% | GWYRDD<br><br>↗ | Cyfanswm y sesiynau a gollwyd gan bob disgybl mewn ysgolion cynradd<br>**5,833,217**<br>Nifer y sesiynau posibl ar gyfer pob disgybl ysgol gynradd<br>**6,137,044** | <br><br>**5,696,420**<br><br>**6,003,628** | Data'n ymwneud â Blwyddyn Academaidd 2016/17<br><br>Collwyd y targed uwch, fodd bynnag, roedd yn yr 8fed safle yn 2017 yng Nghymru a'r uchaf erioed ar gyfer Abertawe. Abertawe sydd wedi gwella orau yng Nghymru dros 5 mlynedd. Mae ffigurau presenoldeb rhai ysgolion wedi effeithio ar berfformiad. O ganlyniad, bydd angen mwy o her i sicrhau lefelau presenoldeb uwch.<br>Nodyn Gweinyddol - dangosir data LIC |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | <br><br>2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **EDU016b ↑**<br>Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | **AMBR**<br>**94.34%** | 94.5% | 94.33% | **GWYRDD**<br>↗ | Cyfanswm nifer y sesiynau na gollwyd gan bob disgybl mewn ysgolion uwchradd<br>**3,532,553**<br>Nifer y sesiynau posibl ar gyfer pob disgybl ysgol uwchradd<br>**3,744,431** | <br><br>**3,582,306**<br><br><br>**3,797,462** | Data'n ymwneud â Blwyddyn Academaidd 2016/17<br>Collwyd y targed uwch, fodd bynnag, roedd yn y 7fed safle yn 2017 ac mae'n dal yn y safle hwn, yr uchaf erioed i Abertawe. O ran y gwelliant gorau a gafwyd yng Nghymru dros 5 mlynedd, mae Abertawe yn y trydydd safle. Er ei fod yn agos at y targed, gallai perfformiad mewn rhai ysgolion fod yn wan a chaiff hyn ei archwilio a'i herio ymhellach. Nodyn Gweinyddol - dangosir data LIC |
| **EDCP28 ↑**<br>Cyfnod Sylfaen (7 oed): Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn SAESNEG | **AMBR**<br>**85.4%** | 88.0% | 85.6% | **COCH**<br>↘ | Yn ystod y Cyfnod Sylfaen (7 oed), nifer y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Saesneg<br>**1,919**<br>Yr holl ddisgyblion yn y garfan ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) a aseswyd mewn Saesneg yn Abertawe.<br>**2,247** | <br><br>**1,900**<br><br><br>**2,220** | Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, cafwyd pwyslais ar asesiadau athrawon cywir, sy'n cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau. |
| **EDCP29 ↑**<br>Cyfnod Sylfaen (7 oed): Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Cymraeg | **GWYRDD**<br>**93.8%** | 92.5% | 92.0% | **GWYRDD**<br>↗ | Yn ystod y Cyfnod Sylfaen (7 oed), nifer y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Ddeilliant 5 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn Cymraeg yn Abertawe<br>**393**<br>Yr holl ddisgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed), a aseswyd mewn Cymraeg yn Abertawe<br>**419** | <br><br>**369**<br><br><br>**401** | |
| **EDCP30 ↑**<br>Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Canran y disgyblon sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o SAESNEG | **AMBR**<br>**91.5%** | 92.0% | 90.0% | **GWYRDD**<br>↗ | Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Nifer y disgyblon sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o SAESNEG<br>**2,337**<br>Yr holl ddisgyblion yn y garfan ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) a aseswyd mewn Saesneg<br>**2,555** | <br><br>**2,247**<br><br><br>**2,498** | Cynnydd o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn parhau'n duedd gynyddol. 17eg Safle. Er bod perfformiad wedi gwella, cafwyd mwy o bwyslais ar asesiadau athrawon mwy cywir. O ganlyniad, mae athrawon wedi cael cefnogaeth i sicrhau bod disgyblion o fewn y lefel perfformiad sy'n ofynnol |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur E – Enwadur 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **EDCP31 ↑**<br>Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o GYMRAEG iaith gyntaf | GWYRDD<br>95.3% | 93.5% | 93.2% | GWYRDD<br>↗ | Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed): Canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 (y lefel ddisgwyliedig) mewn Asesiadau Athrawon o GYMRAEG iaith gyntaf<br>**328**<br>Yr holl ddisgyblion yn y garfan ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) a aseswyd yn Gymraeg iaith gyntaf<br>**344** | **289**<br>**310** | | |
| **EDCP32 ↑**<br>Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy mewn Darllen SAESNEG | AMBR<br>85.7% | 86.4% | 86.3% | COCH<br>↘ | SAESNEG - Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2-9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy<br>**17,169**<br>Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a safodd y Prawf Darllen Cenedlaethol yn Saesneg yn Abertawe<br>**20,023** | **16,985**<br>**19,678** | Yn y 4ydd safle yn 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir y dylid defnyddio'r profion hyn mewn modd diagnostig yn hytrach na fel mesur atebolrwydd, ac mae ysgolion bellach yn derbyn hyn. | |
| **EDCP33 ↑**<br>Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr o 85 neu fwy mewn Darllen CYMRAEG | GWYRDD<br>86.8% | 86.0% | 85.9% | GWYRDD<br>↗ | CYMRAEG - Prawf Darllen Cenedlaethol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy<br>**2,379**<br>Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a safodd y Prawf Darllen Cenedlaethol yn Gymraeg yn Abertawe<br>**2,740** | **2,242**<br>**2,610** | | |
| **EDCP34 ↑**<br>Prawf Rhifedd Cenedlaethol - Gweithdrefnol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | AMBR<br>86.6% | 87.4% | 87.3% | COCH<br>↘ | Prawf Rhifedd - Gweithdrefnol ar gyfer Blynyddoedd 2 - 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy<br>**17,840**<br>Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a safodd y Prawf Rhifedd Cenedlaethol – Gweithdrefnol – yn Abertawe<br>**20,598** | **17,678**<br>**20,259** | Yn y 5ed safle yn 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir y dylid defnyddio'r profion hyn mewn modd diagnostig yn hytrach na fel mesur atebolrwydd, ac mae ysgolion bellach yn derbyn hyn. | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | 2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **EDCP35 ↑**<br>Prawf Rhifedd Cenedlaethol – Rhesymu ar gyfer Blynyddoedd 2 – 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy | **AMBR**<br>**87.1%** | 88.1% | 88.0% | **COCH**<br>**↘** | Prawf Rhifedd – Rhesymu ar gyfer Blynyddoedd 2 – 9 (7-14 oed) ar y cyd: disgyblion sy'n cyflawni sgôr safonedig o 85 neu fwy<br>**17,946**<br>Yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2-9 (7-14 oed) a aseswyd ym Mhrawf Rhifedd Cenedlaethol – Rhesymu – yn Abertawe<br>**20,598** | **17,824**<br>**20,257** | Yn y 7fed safle yn 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir y dylid defnyddio'r profion hyn mewn modd diagnostig yn hytrach na fel mesur atebolrwydd, ac mae ysgolion bellach yn derbyn hyn. | |
| **EDU017 ↑**<br>Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gyflawnodd 5 TGAU neu fwy gyda graddau A*- C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn ystod yr haf blaenorol | **COCH**<br>**57.81%** | 64.5% | 65.86% | **COCH**<br>**↘** | Nifer y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod yn yr haf blaenorol sy'n ennill 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C neu gyfwerth galwedigaethol, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf) a mathemateg<br>**1,391**<br>Pob disgybl a addysgir ym mlwyddyn 11 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gofnodwyd ar ffurflen PLASC Ionawr ar gyfer y garfan honno.<br>**2,406** | **1,605**<br>**2,437** | Ni ellir cymharu canlyniadau â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau i'r cwricwlwm a mesurau perfformiad. 7fed safle yn 2017. Roedd y dirywiad sydyn mewn perfformiad yn is na'r dirywiad cenedlaethol a welwyd yn 2017 pan gyflwynwyd cymwysterau TGAU newydd.<br>*Nodyn gweinyddol: Data 2016/17 diwygiedig drwy LIC* | |
| **EDCP36 ↑**<br>Canran y myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) sy'n cyrraedd trothwy lefel 1 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. | **Dim COG**<br>**26.53%** | N/A | - | **DP newydd** | Nifer y myfyrwyr EOTAS ym Mlwyddyn 11 sy'n cyflawn trothwy Lefel 1 ar ddiwedd Blwyddyn 11.<br>**13**<br>Nifer y myfyrwyr EOTAS ym Mlwyddyn 11.<br>**49** | **DD/B**<br>**DD/B** | DP newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer 2017/18 a'r tu hwnt. Gwaelodlin yn cael ei lunio ar gyfer data, a thargedau'n cael eu pennu ar gyfer 2018/19. | |
| **EDCP37 ↑**<br>Canran y myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 sy'n cyflawni cymwysterau lefel 2 mewn pynciau Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. | **Dim COG**<br>**61.26%** | N/A | - | **DP newydd** | Nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cyrraedd cymwysterau Lefel 2 mewn pynciau Gwyddoniaeth a Mathemateg ar ddiwedd Blwyddyn 11.<br>**1,474**<br>Nifer y myfyrwyr Blwyddyn 11.<br>**2,406** | **DD/B**<br>**DD/B** | DP newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer 2017/18 a'r tu hwnt. Gwaelodlin yn cael ei lunio ar gyfer data, a thargedau'n cael eu pennu ar gyfer 2018/19. | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad<br>2017/18 | Targed<br>2017/18 | Perfformiad<br>2016/17 | O'i gymharu â<br>2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | <br><br>2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **EDCP38 ↑**<br><br>Canran y myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 sy'n byw mewn ardaloedd y nodir eu bod yn yr 20% o'r holl ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru sy'n cyflawni mesur cynhwysol Lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. | **Dim COG**<br><br>**40.74%** | N/A | - | **DP newydd** | Nifer y myfyrwyr ysgol uwchradd sy'n byw mewn ardaloedd y nodir eu bod yn yr 20% mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd yng Nghymru sy'n cyflawni'r mesur cynhwysol Lefel 2 ar ddiwedd Blwyddyn 11.<br>**286**<br><br>Nifer y myfyrwyr sy'n byw mewn ardaloedd a ddosberthir fel yr 20% mwyaf difreintiedig o'r holl ardaloedd yng Nghymru a oedd ar gofrestrau ysgolion uwchradd<br>**702** | <br>**DD/B**<br><br><br>**DD/B** | DP newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer 2017/18 a'r tu hwnt. Gwaelodlin yn cael ei lunio ar gyfer data, a thargedau'n cael eu pennu ar gyfer 2018/19. |
| **EDCP39 ↑**<br><br>Canran y myfyrwyr ym Mlwyddyn 11 y nodwyd eu bod dan ofal yr awdurdod lleol (PDG) ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd sy'n cyflawni mesur cynhwysol Lefel 2 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. | **Dim COG**<br><br>**17.86%** | N/A | - | **DP newydd** | Nifer y myfyrwyr ysgol uwchradd sydd wedi bod yn PDG ar unrhyw adeg wrth fod yn yr ysgol uwchradd sy'n cyrraedd mesur cynhwysol Lefel 2 ar ddiwedd Blwyddyn 11.<br>**5**<br><br>Nifer y myfyrwyr ysgol uwchradd sydd wedi bod yn PDG ar unrhyw adeg wrth fod yn yr ysgol uwchradd a oedd ar gofrestrau ysgolion uwchradd.<br>**28** | <br>**DD/B**<br><br><br>**DD/B** | DP newydd wedi'i gyflwyno ar gyfer 2017/18 a'r tu hwnt. Gwaelodlin yn cael ei lunio ar gyfer data, a thargedau'n cael eu pennu ar gyfer 2018/19. |
| **EDFM2 ↑**<br><br>Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gyflawnodd 5 TGAU neu fwy gyda graddau A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg | **COCH**<br><br>**30.79%** | 39.0% | 39.14% | **COCH**<br><br>**↘** | Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gyflawnodd 5 TGAU neu fwy gyda graddau A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf) a mathemateg<br>**137**<br><br>Pob disgybl sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a addysgir ym mlwyddyn 11 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a gofnodwyd yn ffurflen PLASC Ionawr ar gyfer y garfan honno.<br>**445** | <br>**146**<br><br><br>**373** | Ni ellir cymharu canlyniadau â blynyddoedd blaenorol oherwydd gwahaniaethau a achoswyd gan newidiadau i'r cwricwlwm a cholli sgiliau allweddol sy'n cyfrif fel cymwysterau ar wahân. Fodd bynnag, erys problem o ran bwlch o 33% rhwng disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn derbyn PYDd yn 2017. Roedd yn anodd rhagfynegi'r dirywiad sydyn mewn perfformiad oherwydd cyflwynwyd cymwysterau newydd yng Nghymru yn 2017. Effeithiwyd yn andwyol ar y dangosydd hwn gan y math o TGAU a gyflwynwyd. Byddwn yn parhau i adolygu effaith y newidiadau hyn ac yn monitro perfformiad yn agos. |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad<br>2017/18 | Targed<br>2017/18 | Perfformiad<br>2016/17 | O’i gymharu â<br>2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur<br>2017/18 | <br><br>2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **EDCP18d ↑**<br>Pobl ifanc y gwyddys eu bod yn NEET (nid ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) | **AMBR**<br>**2.1%** | 2.1% | - | **DP newydd** | Disgyblion y gwyddus NAD ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed<br>**52** | <br>**DD/B** | Roedd y newid yn nifer y plant sy'n dod yn NEET yn fach iawn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. | |
| | | | | | Pob disgybl yng ngharfan blwyddyn 11<br>**2,419** | <br>**DD/B** | | |
| **POV07 ↑**<br>Nifer yr wythnosau o hyfforddiant i weithwyr newydd a gyflawnwyd drwy'r cymalau budd cymunedol | **GWYRDD**<br>**2,371** | 1,500 | - | **DP newydd** | Nifer yr wythnosau o hyfforddiant a chyflogaeth a gyflawnwyd gan bobl.<br>**2,371** | <br>**DD/B** | | |
| | | | | | E<br>**1** | <br>**DD/B** | | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur E – Enwadur 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Blaenoriaeth 3: Yr Economi ac Isadeiledd

**Trosolwg Pennaeth Arweiniol y Gwasanaeth**

Dengys perfformiad ein bod wedi cyflawni'n targedau yn erbyn y mwyafrif helaeth o ddangosyddion allweddol a'n bod felly'n gwneud cynnydd cadarn wrth gyflwyno'n hamcanion. Yr her yn awr fydd cynnal a gwella hyn yn 2018/19. Yn benodol, cyflwynwyd cryn dipyn o arwynebedd llawr masnachol ychwanegol drwy'r cynlluniau a ariannwyd drwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid gyda phartneriaid y sectorau cyhoeddus a phreifat yng nghanol y ddinas. Mae dros 2,300 o wythnosau hyfforddi a chyflogaeth wedi cael eu creu gan gynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter y cyngor ar gyfer y di-waith a'r anweithgar yn economaidd. Mae canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos yn uwch na'r targed ar ychydig dros 87% felly hefyd ganran y ceisiadau mawr a gymeradwywyd, sef 93%. Yn anffodus, mae nifer yr unedau tai newydd a grëwyd yng nghanol dinas Abertawe (o ganlyniad i'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn yn gwireddu'r cyllid posib) 20% yn is na'r targed oherwydd yr oedi gydag un cynllun, 15-20, Stryd y Castell. Fodd bynnag, ac yn galonogol, mae'r cynllun hwn bellach ar y safle, a phan gaiff ei gwblhau yn gynnar yn 2019, cyflwynir 22 o unedau ychwanegol, gan olygu y caiff ein targed ei gyflawni, er yn hwyr. Mae gohirio dechrau gwaith ar safleoedd prosiectau eiddo hefyd wedi effeithio ar ein dangosydd sy'n mesur gwerth mewnfuddsoddiad ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, lle cyflawnwyd gwerth o £26m yn erbyn targed o £35m. Eto, bydd y cynlluniau hyn a ohiriwyd yn ymddangos yn 2018/19 ac felly mae eu cyfraniad at adfywio Abertawe wedi'i ohirio ac nid wedi'i golli.

Wrth edrych ar rai o'r prif flaenoriaethau, mae'r gweithredwr dethol ar gyfer prosiect yr Arena, ATG, bellach wedi llofnodi'r cytundeb cyfreithiol a chynhaliwyd digwyddiad lansio yn Llundain. Ar ddiwedd 2017/18, parhawyd i gaffael y prif gontractwr ar gyfer y Sgwâr a'r Arena Ddigidol ac roedd sawl contractwr ar y rhestr fer wedi gwneud cynnig am ymatebion Holiadur Cyn Cymhwyso. Yn y cyfamser, mae dyluniadau Cam 3 RIBA yn datblygu'n dda a disgwylir i waith galluogi ddechrau ar y safle ym mis Awst 2018, gyda'r prif waith yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Yn dilyn derbyn y cynnig o gyllid gwerth £4m gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, mae Prosiect Isadeiledd Ffordd y Brenin yn mynd rhagddo ar y safle, ar ôl penodi Dawnus. Penodwyd Alun Griffiths Construction hefyd i ddymchwel dau eiddo ar Stryd Rhydychen i greu'r cyswllt newydd â Ffordd y Brenin fel rhan o ddatblygu'r Ganolfan Gyflogaeth. Bydd y gwaith hwn yn dechrau ar y safle'n fuan. Penodwyd WPS yn ymgynghorydd amlddisgyblaeth ar gyfer cynigion adolygiad (cam 1) y Ganolfan Gyflogaeth, gyda'r bwriad o ddatblygu'r prosiect. Mae ymgynghorydd gwasanaethau digidol wedi'i benodi hefyd i gynghori ar yr agweddau technoleg ddigidol ar y prosiect.

Mae'r Ymchwiliad i'r Cynllun Datblygu Lleol yn datblygu'n dda a chaiff ei gwblhau ym mis Mehefin, a rhagwelir y caiff y CDLl ei fabwysiadu cyn diwedd 2018. Mae gwaith yn parhau hefyd i ddatblygu amcanion allweddol eraill i drawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd, megis Gwaith Copr yr Hafod lle mae'r cam dylunio manwl yn datblygu. Adroddir i'r Cabinet am benawdau telerau ar gyfer Penderyn and Skyline fis nesaf. Gwariwyd £46m bellach wrth helpu i sicrhau bod eiddo'r cyngor yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae cam cyntaf y prosiect Rhagor o Gartrefi, sy'n darparu tai cyngor newydd ar Colliers Way bellach wedi'i gwblhau, ac mae tenantiaid wedi symud i'r eiddo passivhaus newydd.

Yn ystod y cyfnod hwn hefyd aethom ati i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori i aildrefnu'n cynlluniau ar gyfer rôl diwylliant wrth gyflwyno'r Flaenoriaeth Gorfforaethol, yn dilyn ymgyrch hynod amlwg yn ystod ein cais i fod yn Ddinas Diwylliant y DU, lle Abertawe oedd yr unig ddinas yng Nghymru ac yn un o bum dinas yn unig yn y DU i gyrraedd y rhestr fer. Cynhaliwyd momentwm ac uchelgais pan gyhoeddwyd digwyddiadau proffil uchel megis Little Mix a The Killers yn ymddangos yn Stadiwm Liberty a Pharc Singleton fel lleoliad ar gyfer un o bedwar digwyddiad yn unig ar draws y DU ar gyfer Penwythnos Mwyaf BBC Music.

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R/E 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **BBMA1 ↑** Nifer y proseictau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol | GWYRDD 19 | 16 | - | DP newydd | R: Nifer y proseictau sy'n cynnwys cymalau budd cymdeithasol a'r Tu Hwnt i Frics a Morter yn eu contractau: 19 | N/A | |
| | | | | | E: 1 | N/A | |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad<br>2017/18 | Targed<br>2017/18 | Perfformiad<br>2016/17 | O'i gymharu â<br>2016/17 | R – Rhifiadur<br>E – Enwadur | 2017/18 | 2016/17 | Sylwadau<br>(Esboniad a Chamau Gweithredu) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **EC2 ↑**<br>Canran yr holl geisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwyir. | GWYRDD<br>93% | 85% | 91% | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm y ceisiadau o bwys ag ysgogiad economaidd a gymeradwywyd.<br>Cyfanswm nifer y ceisiadau mawr a bennwyd yn ystod y flwyddyn | **25**<br>**27** | **41**<br>**45** | |
| **EC3 ↑**<br>Cyfanswm yr arwynebedd llawr masnachol (m²) sydd wedi'i greu yng nghanol y ddinas ar gyfer creu swyddi | GWYRDD<br>11,802m² | 9,810m² | 6,647m² | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm yr arwynebedd llawr masnachol a grëwyd fesul metr sgwâr yng nghanol y ddinas<br>E | **11,802m²**<br>**1** | **6,647m²**<br>**1** | |
| **EC4 ↑**<br>Nifer yr unedau tai newydd sydd wedi'u creu yng nghanol dinas Abertawe o ganlyniad i gyllid o'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | COCH<br>80 unedau | 102 unedau | 54 unedau | GWYRDD<br>↗ | Nifer ychwanegol yr unedau tai newydd a gwblhawyd yng nghanol dinas Abertawe drwy Leoedd Llewyrchus Llawn Addewid.<br>E | **80**<br>**1** | **54**<br>**1** | Erys un cynllun heb ei ddechrau ar safle yn 15-20 Stryd y Castell oherwydd oedi; bydd y cynllun hwn yn cyflwyno'r 22 o unedau sy'n weddill. Mae'r gwaith i newid teitl y lesddaliad at ddiben newydd yn parhau, a disgwylir i'w gwblhau ym mis Mai/Mehefin 2018. Bydd y brydles newydd yn datgloi amryw gyfamodau a osodwyd ar yr isbrydles bresennol. Y dyddiad cwblhau newydd amcangyfrifedig yw dechrau 2019. |
| **EP28 ↑**<br>Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos | GWYRDD<br>86.09% | 80% | 85.94% | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm yr holl geisiadau cynllunio eraill y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos yn ystod y flwyddyn<br>Cyfanswm yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn | **1,653**<br>**1,920** | **1,437**<br>**1,672** | |
| **WMT009b ↑**<br>Canran y gwastraff dinesig a gasglwyd gan awdurdodau lleol a'i baratoi i gael ei ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu | GWYRDD<br>64.01% | 60% | 63.70% | GWYRDD<br>↗ | Cyfanswm tunelledd y gwastraff dinesig a gasglwyd gan yr awdurdod lleol i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu<br>Tunelledd y gwastraff dinesig a gasglwyd gan yr awdurdod lleol | **71,123**<br>**111,104** | **73,482**<br>**115,363** | Fel y cytunwyd, oherwydd cyfyngiadau amser wrth grynhoi'r data sy'n ofynnol a'u dilysu, mae'r ffigurau a nodir chwarter ar ei hôl hi. Felly mae'r ffigurau a ddarperir ar gyfer Ch4 2016/17 a Ch1-Ch3 2017/18 er mwyn cael blwyddyn lawn o ffigurau.<br><br>*Nodyn gweinyddol: Data 2016/17 diwygiedig drwy LIC* |

| DP a Chyfeiriad Dymunol | Canlyniad 2017/18 | Targed 2017/18 | Perfformiad 2016/17 | O'i gymharu â 2016/17 | R – Rhifiadur / E – Enwadur 2017/18 | R – Rhifiadur / E – Enwadur 2016/17 | Sylwadau (Esboniad a Chamau Gweithredu) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ESD1 ↑**<br>Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir neu'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad) | **COCH**<br>**£26.0m** | £35.0m | £18.2m | **GWYRDD**<br>↗ | Gwerth mewnfuddsoddi sy'n ymwneud â phrosiectau eiddo lle mae'r awdurdod yn berchen ar ychydig o'r tir neu'r tir cyfan (neu dir cyfagos sy'n hwyluso'r datblygiad)<br>**£26.0m**<br>E<br>**1** | **£18.2m**<br>**1** | Gohiriwyd dechrau gwaith ar safleoedd prosiectau isadeiledd Cam 1 Dewi Sant, Gwaith Copr yr Hafod, Stryd Mariner, y Pentref Digidol a Ffordd y Brenin. Mae nifer o ffactorau allanol wedi dylanwadu ar gyflwyno'r prosiectau hyn, gan gynnwys cyllid a bod yn agored i risg gyda phrosiect Stryd Mariner a phroblemau technegol gyda chynlluniau'r Hafod a Ffordd y Brenin. Mae Abertawe Ganolog wedi elwa o'r amser ychwanegol wrth wella dyluniad y cynllun a sicrhau tenant sefydlog pwysig sef Grŵp Theatr Ambassador i weithredu'r Arena. | |
